# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Prion**

**Ysgol Pant Pastynog**
**Prion**
**Dinbych**
**LL16 4SR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**29 Hydref 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Prion wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 17 o blant. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio caban ar safle Ysgol Pant Pastynog ac mae ar agor rhwng 11:30 a 15:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Y personau cofrestredig yw Sioned Aimes a Llinos Lloyd Anderson a'r person â chyfrifoldeb yw Sian Jones. Gwasanaeth Cymraeg yw hwn ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r gwasanaeth yn darparu lleoedd a ariennir ar gyfer plant tair a phedair oed fel rhan o gynllun Hawl i Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn cael ei arolygu gan Estyn hefyd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae hwn yn wasanaeth bach, gwledig ac mae'r plant yn egnïol, yn hapus ac yn edrych yn gartrefol. Mae'r ymarferwyr yn brofiadol iawn, yn gymwys ac mae ganddynt gydberthynas dda â'r plant. Caiff rhaglen amrywiol o weithgareddau ei chynllunio'n ofalus a'i chynnig er budd pob plentyn. Mae'r ardaloedd amrywiol yn ddiogel ac yn addas i ofalu am blant ac maent yn cynnig amgylchedd ysgogol iddynt, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli mewn ffordd gefnogol a llwyddiannus, gan sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn cael profiadau gwerthfawr.

### 2. Gwelliannau

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth ehangach o brofiadau mewn ardal awyr agored well sy'n gaeedig ac sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfarpar fel bwrdd sialc a thŷ bach twt.

Mae'r rhieni yn cael mwy o wybodaeth ffurfiol mewn cylchlythyr sy'n cael ei ddosbarthu bob hanner tymor.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom un argymhelliad i ychwanegu mwy o fanylion a'r dyddiad at yr asesiadau risg ysgrifenedig er mwyn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i gadw'r plant yn ddiogel.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant lefel uchel o lesiant am fod ganddynt lais cryf ac am eu bod yn gallu dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn hapus, wedi ymlacio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr gan gymryd rhan yn y gweithgareddau diddorol a gynigir. Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn dysgu sgiliau i'w helpu i ddod yn fwy annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cael eu hannog i siarad, ac mae'r ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn rhoi dewisiadau iddynt.

Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol am eu bod yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn ddirwystr. Wrth arsylwi plentyn yn paentio, gwelsom ei bod wedi cael rhwydd hynt i baentio ei dwylo am ei bod hi'n amlwg yn mwynhau'r profiad synhwyraidd hwn. Cafodd y plant eu hannog i ddewis ble yr hoffent chwarae a pha lyfrau i'w darllen. Roedd llawer o ardaloedd ar gael, gan gynnwys cornel cartref a bwrdd natur gyda theganau adar realistig. Roedd yr ymarferwyr yn gwrando ar y plant ac yn parchu eu dewisiadau, er enghraifft, pan wnaethant fynegi eu dewisiadau yn ystod amser byrbryd. Roedd iaith gyntaf y plant yn cael ei hystyried ac roedd gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig i'r plant hynny yr oedd arnynt ei angen. Defnyddiwyd Saesneg er mwyn helpu rhai plant o gartrefi di-Gymraeg i ddeall cyfarwyddiadau. Roedd angen gwneud hyn gan mai dim ond ail ddiwrnod y tymor academaidd oedd hwn ac felly, roedd hwn yn brofiad cadarnhaol i'r plant.

Mae gan y plant lais ac maent yn gwybod bod yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn eu parchu.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo'n dda ac roedd yr ymarferwyr yn siarad â nhw'n garedig. Roedd hi'n amlwg bod ganddynt gydberthnasau agos â'r ymarferwyr, er enghraifft, gwelsom ddau blentyn yn swatio gydag ymarferydd ar y soffa er mwyn chwarae gemau ar lechen gyda'i gilydd. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ac yn sgwrsio'n hapus â'r ymarferwyr ar adegau amrywiol, gan gynnwys amser cinio. Roedd y plant yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at yr ymarferwyr, er enghraifft, gwelsom blentyn yn gafael yn llaw ymarferydd er mwyn tynnu ei sylw at rywbeth.

Mae'r plant bob amser yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn ymddiried yn yr ymarferwyr.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a'r ymarferwyr.

Roedd y plant yn dysgu sut i rannu ac roeddent yn gwrando ar eraill, er enghraifft, pan ofynnodd yr ymarferwyr iddynt olchi eu platiau a'u cwpanau ar ôl amser byrbryd. Roeddent wedi dysgu sut i rannu teganau megis eitemau yn y cornel cartref ac roedd hi'n bleser gweld dau blentyn yn trafod beth i'w wneud â'r teganau anifeiliaid fferm. Roedd y plant yn gofalu am gyfarpar ac adnoddau, er enghraifft, cawsant eu hatgoffa na ddylent daflu llyfrau a gwnaethant ymateb yn gadarnhaol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn ac maent wedi dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn llwyr ymroi i chwarae a dysgu. Roeddent wedi gwrando'n dda ar stori a chawsant eu gweld yn canolbwyntio am gyfnod priodol wrth chwarae â thoes chwarae. Roeddent yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn ddirwystr ac yn ddiogel, er enghraifft, gwelsom blentyn yn chwarae ag eitemau ar y bwrdd natur ac yn defnyddio ysbienddrych i edrych allan drwy'r ffenestr. Roedd y plant yn mwynhau chwarae â'r teganau anifeiliaid anwes yn y cornel cartref ac roeddent yn dysgu bod yn ofalgar.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau ysgogol a ddarperir ac maent yn ymroi'n llwyr i chwarae a dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn dysgu, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau, gan gynnwys chwarae distrwythur a oedd yn eu galluogi i feithrin sgiliau a bod yn annibynnol, er enghraifft, roedd y plant yn mynd i'r tŷ bach ac yn golchi eu dwylo ar eu pen eu hunain a byddai'r ymarferwyr yn helpu yn ôl yr angen. Roedd y plant wedi cael hwyl ac ymdeimlad o gyflawniad wrth iddynt gymysgu paent er mwyn gwneud y lliw pinc. Roeddent yn hyderus ac yn awyddus i siarad am fywyd teulu a pha anifeiliaid roeddent yn gofalu amdanynt a'u henwau. Roedd y plant yn arllwys eu diodydd eu hunain, yn rhoi unrhyw fwyd dros ben mewn bin arbennig ac roeddent yn cael eu hannog a'u helpu i olchi'r llestri ar ôl cael byrbryd. Roedd y plant yn hyderus i roi cynnig ar brofiadau newydd fel chwarae mewn tywod sych ag eitemau metalig bach.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn cael eu hannog i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n llwyddiannus gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol.  Maent yn ofalgar, yn fagwrus ac yn ymateb i anghenion y plant. Mae amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn cael eu cynllunio'n ofalus a'u darparu er mwyn hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda ac wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd yr ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Wrth drafod ag ymarferydd, gwelwyd eu bod yn ymwybodol o'r broses ddiogelu i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon am blentyn. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd y rhifau cyswllt angenrheidiol wrth law ac wedi'u harddangos ar siart llif. Roedd gan bob ymarferydd gymwysterau Cymorth Cyntaf pediatrig cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos bod digwyddiadau yn cael eu trin yn briodol a bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt ac yn llofnodi'r cofnodion.

Roedd yr ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i fod yn egnïol yn yr awyr agored bob dydd os yn bosibl. Er na welsom unrhyw chwarae awyr agored yn ystod yr arolygiad am ei bod yn glawio, roedd digon o luniau a chynlluniau i ddangos bod hyn yn digwydd yn rheolaidd. Gwelsom fyrbryd iach o ffrwythau â dŵr neu lefrith i'w yfed ac roedd bwydlen wedi'i harddangos, a oedd yn dangos bod yr ymarferwyr bob amser yn hybu egwyddorion bwyta'n iach. Roedd y gwasanaeth wedi ennill sgôr o 5 am baratoi bwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r ysgol a rhoddodd yr ymarferwyr sicrwydd inni y byddai'r plant yn gadael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Roedd y byrddau a'r lloriau yn cael eu cadw'n lân ac roedd yr ymarferwyr wedi gwrando ar gyngor tîm Iechyd yr Amgylchedd lleol drwy ddefnyddio chwistrell glanhau arbennig.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn flaenoriaeth bob amser.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol.

Roedd yr ymarferwyr yn hybu ymddygiad cadarnhaol yn dda drwy ddathlu ymddygiad da a defnyddio gwobrau fel sticeri. Roeddent yn canmol y plant yn aml, er enghraifft, am fwyta'u cinio gyda chyllell a fforc. Roedd yr ymarferwyr yn fodelau rôl da, er enghraifft, dweud os gwelwch yn dda a diolch i'r plant drwy gydol y sesiwn. Roedd ffyrdd arloesol yn cael eu defnyddio i reoli'r rhyngweithio, er enghraifft, defnyddiwyd cloch er mwyn helpu'r plentyn i ddeall a symud o un rhan o'r drefn arferol i'r nesaf, megis amser tacluso neu amser cylch.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda, gan helpu'r plant i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r ymarferwyr gofalgar yn hybu dysgu a datblygiad y plant, gan ddarparu amrywiaeth o brofiadau diddorol dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd yr ymarferwyr yn rhyngweithio'n frwdfrydig â'r plant bob amser, gan greu awyrgylch hamddenol a'u helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwelsom amser cylch rhyngweithiol wrth i'r plant ddysgu sut i adnabod eu henwau, sut i gyfrif a sut i ddisgrifio'r tywydd. Defnyddiwyd arwyddion hefyd i atgyfnerthu patrymau iaith. Roedd lluniau'n dangos bod y plant wedi bod yn defnyddio robot bach, wedi blasu uwd ac wedi edrych ar dri thedi o wahanol faint fel rhan o thema Elen Benfelen. Roedd lluniau hefyd yn dangos bod y plant wedi chwarae ac archwilio yn yr ardal awyr agored, er enghraifft, roedd y plant wedi chwilio am chwilod.

Gwelsom gynlluniau manwl a oedd yn cyd-fynd ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac am mai dim ond ail ddiwrnod y tymor academaidd oedd hwn, gwelsom fod plant unigol wedi cael eu harsylwi yn y gorffennol. Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hybu'n naturiol a thrwy ddefnyddio caneuon ac roedd labeli perthnasol i'w gweld o gwmpas yr ystafell.  Gwelsom hefyd Lyfr Marcio'r plant, y gallent ei ddefnyddio'n anffurfiol er mwyn ysgrifennu neu dynnu llun. Roedd y llyfr hwn yn dystiolaeth bellach o gynnydd y plant. Roedd yr ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol am eu bod yn adnabod y plant yn dda, er enghraifft, os oedd y plant yn dod o gefndir amaethyddol, gallent siarad am fywyd gwledig. Roedd y person â chyfrifoldeb hefyd yn gweithio yn yr ysgol ac yn adnabod y teuluoedd yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn hybu dysgu'r plant yn llwyddiannus drwy ddarparu amgylchedd chwarae â gweithgareddau diddorol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel iawn ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda, dan do ac yn yr awyr agored, gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r arweinwyr hefyd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn amrywiol, yn ysgogol ac yn addas i'r plant sy'n mynychu. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd pob ardal dan do ac awyr agored yn ddiogel ac roedd asesiadau risg yn dangos bod yr ymarferwyr yn gwybod am lawer o'r risgiau a sut i'w rheoli. Nid oedd rhai manylion wedi'u cofnodi, fel y plant yn defnyddio'r cordyn coch yn y tŷ bach os oedd angen help arnynt. Roedd hi'n aneglur pryd y cafodd yr asesiadau eu hadolygu ddiwethaf gan nad oedd y dyddiad wedi'i nodi arnynt. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio wrth iddynt symud o un ardal i'r llall, er enghraifft, adeg mynd adref, ac roedd gofyn i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr ar ôl cael mynediad.

Mae gan yr arweinwyr systemau llwyddiannus i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i oedran y plant sy'n mynychu.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod digon o le chwarae ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yr ardaloedd chwarae yn y brif ystafell wedi'u gosod ar uchder y plant er mwyn iddynt eu defnyddio'n hawdd. Gwnaethom arsylwi ardaloedd ag adnoddau da, megis ardaloedd gwneud marciau, pwyso, paentio a thŷ byd bach. Roedd cadeiriau a byrddau sy'n addas i faint y plant yn cael eu defnyddio. Roedd yr ardal awyr agored yn cynnwys bwrdd sialc, cerrig rhifo, tywod gwlyb, tŷ bach twt cryf o bren a beiciau bach. Roedd toiled a sinc gyda gris ar gael er mwyn galluogi'r plant i'w defnyddio'n annibynnol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys cyfarpar da, yn addas i blant ac yn ysgogol.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn amrywiol, yn lân ac o ansawdd da.

Roedd y teganau a'r gemau'n lân ac mewn cyflwr da. Roedd y cyfarpar a'r dodrefn yn addas i oedran y plant sy'n mynychu, gan gynnwys cyfarpar awyr agored fel welintons a siwtiau glaw. Roedd digon o adnoddau fel eitemau paentio a chrefft. Roedd llyfrau Cymraeg

ar gael a gwelsom rai a oedd yn adlewyrchu diwylliannau eraill. Roedd y plant yn dysgu sut i ailgylchu bwyd fel rhan o'r drefn arferol gan roi unrhyw fwyd nad oeddent ei eisiau mewn bin arbennig ar ben y bwrdd, ar ôl cael byrbryd. Roedd biniau eraill ar gael hefyd ar gyfer gwastraff cyffredinol ac ailgylchu papur.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau ansawdd a phriodoldeb yr adnoddau a'r cyfarpar.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus ac yn ceisio darparu gwasanaeth o safon. Mae'r broses hunanwerthuso yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau â'r rhieni ac eraill yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, sy'n cael ei rhannu â'r rhieni.

Roedd gan yr arweinwyr ymdeimlad o ddiben a disgwyliadau er mwyn hybu gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Roedd y Datganiad o Ddiben yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar rieni er mwyn dewis pa fath o wasanaeth sydd ei angen ar gyfer eu plentyn. Gwelsom fod y gweithlu yn hapus, yn gymwys ac yn cael cymorth da. Gwelsom ymarfer cyson drwy gydol y gwasanaeth ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu bodloni, fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Roedd y rhieni'n darparu gwybodaeth ysgrifenedig gynhwysfawr am bob plentyn.

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad clir o ddiben sy'n arwain at ganlyniadau da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso. Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a gwella parhaus. Roedd yr adolygiad blynyddol o ansawdd gofal yn cynnwys llawer o wybodaeth am y gwasanaeth, gan gynnwys meysydd o arfer da a chynlluniau gwella. Roedd y gwasanaeth eisoes wedi gweithredu ar rai meysydd i'w gwella, megis datblygu'r ardal awyr agored a chyhoeddi cylchlythyr er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r rhieni. Roedd gweithgareddau'n cael eu gwerthuso hefyd gan ddefnyddio taflenni cynllunio, a oedd yn galluogi'r ymarferwyr i gofnodi a oedd y plant yn eu mwynhau a sut i'w haddasu os oes angen.

Mae'r arweinwyr yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod, a chymerir camau gweithredu er mwyn cynnal safonau uchel a gwella ymarfer yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith i reoli ymarferwyr ac adnoddau.

Gwnaethom archwilio ffeiliau'r ymarferwyr a gwelsom fod prosesau recriwtio cadarn wedi cael eu dilyn er mwyn sicrhau bod gan yr ymarferwyr y profiad a'r cymwysterau perthnasol. Roedd gan bob ymarferydd wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Gwnaethom siarad hefyd â'r ymarferwyr a gadarnhaodd eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth. Roedd arfarniadau wedi cael eu cynnal hefyd a oedd yn dangos bod gan yr ymarferwyr lais a bod yr arweinwyr yn gwrando arnynt. Gallai'r ymarferwyr fynd i gyfarfodydd y pwyllgor rheoli ac awgrymu unrhyw weithgareddau neu gyfarpar ychwanegol. Roedd dau ymarferydd yn gofalu am saith plentyn gan sicrhau bod y cymarebau oedolion:plant a argymhellir yn cael eu bodloni a bod y plant yn cael digon o sylw gan ymarferwyr nad ydynt o dan straen. Gwelsom dystiolaeth fod yr ymarferwyr wedi mynychu pob cwrs gorfodol, megis cymorth cyntaf, yn ogystal â rhai eraill fel rheoli ymddygiad a rhifedd drwy chwarae.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol a llwyddiannus i reoli'r broses recriwtio, nodi anghenion hyfforddi a gweithio gydag ymarferwyr er mwyn gwella perfformiad.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am y gwasanaeth ac mae ganddynt bartneriaethau pwysig â nhw, yr ysgol ac asiantaethau eraill.

Roedd yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn hawdd mynd atynt ac yn cyfathrebu'n agored â'r rhieni yn ôl yr angen. Gwelsom fod negeseuon gan y rhieni'n cael eu trosglwyddo'n effeithiol o'r ysgol i'r ymarferwyr gan ddefnyddio system 'walkie talkie'. Gallai'r rhieni siarad â'r ymarferwyr bob dydd ac roeddent yn cael cyfle i rannu eu barn unwaith y flwyddyn drwy holiadur. Mae noson agored wedi cael ei threfnu hefyd ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn trafod sut mae'r plant yn setlo. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r plant gan roi profiadau iddynt i'w helpu i bontio i'r ysgol. Er enghraifft, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, gallai'r plant chwarae ar yr iard gyda'r plant hŷn am gyfnodau byr. Mae'r arweinwyr hefyd yn cyfathrebu ac yn cydweithio â'r ysgol, er enghraifft, mae gwaith a wnaed yn yr ardal awyr agored wedi creu ardal ysgogol sy'n cael ei defnyddio er budd y plant. Roedd y Mudiad hefyd wedi darparu ffurflenni a pholisïau er mwyn i'r gwasanaeth eu mabwysiadu ac mae cyrsiau'n cael eu trefnu drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau bod partneriaethau â'r rhieni ac eraill o fudd i'r plant ac yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol iddyn nhw a'u teuluoedd.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom un argymhelliad i ychwanegu mwy o fanylion a'r dyddiad at yr asesiadau risg ysgrifenedig er mwyn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i gadw'r plant yn ddiogel.

## 6. Sut y cynhaliwyd yr arolygiad hwn gennym

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 6 Medi 2018 rhwng 11.45 a 15.45.

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant a'r ddau ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r person â chyfrifoldeb ac, yn ddiweddarach, i'r person cofrestredig.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
[www.arolygiaethgofal.cymru](www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Llinos Anderson**<br>**Sioned Oliver-Ames** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sian Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **17** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 4 oed** |
| **Oriau agor** | **11.30 -14.55 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Medi 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **06 Medi 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |